

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
Ionawr 11, 2021 (trwy gyfrwng Teams)**

Presennol: Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a ddymunodd Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eleri Jones.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Tachwedd 9fed, 2020.
5. Nid oedd materion yn codi.
6. **Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cyngorydd Gwynedd, Alan Jones Evans, Dywedodd ei fod yn falch fod Cyngor Gwynedd wedi bod yn sgubo'r ffordd. Cwmpodd coeden yn y storm ar ôl y Nadolig, ond fe'i chliriwyd yn fuan iawn. Caewyd rhan o'r ffordd gan BT pan fuont yn profi'r polion. Yn anffodus iawn bu ymwelwyr i'r ardal yn ystod y cyfnod clo ac fe gafodd y Wardeiniaid llawer o drafferth o'r herwydd. Erbyn hyn mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi cau maes parcio Llangywer. Mynnodd un ymwelydd o Lundain wrth yr Heddlu fod ganddo hawl i ymweld gan ei fod wedi gwerthu ei eiddo yn Llangywer.

7. Materion ariannol:

Y sefyllfa ariannol bresennol: Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa a ddisgwylir erbyn diwedd Mawrth 2021. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis, sef

- i. H G WEB Design (gweinyddu am y flwyddyn) £150
- ii. Swyddfa Archwilio Cymru £168.72
- iii. Partneriaeth Penllyn £0.00
- iv. Torri gwrych y fynwent £78 (hyn yn cynnwys TAW)

Cytunwyd i holi prisiau cynnal a chadw'r fynwent am y flwyddyn 2021.

Cyfraniadau blynyddol - cytunwyd i holi am geisiadau i'w trafod yng nghyfarfod Chwefror. Oherwydd amgylchiadau anarferol Covid, cytunwyd i ganiatáu ffenest arall i ystyried ceisiadau, gan drosglwyddo gweddill o dan bennawd "Cyfraniadau Cymunedol 2020-21" i'r flwyddyn ariannol 2021-22.

8. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned - dim**9. Partneriaeth Penllyn:** Nid oedd dim i'w adrodd.**10. Gohebiaeth:**

- i. **Parc Cenedlaethol Eryri:** diolchwyd i'r Clerc am ei sylwadau ar yr Ymgynghoriad ac i Rhys Evans (Y Bala) am ei gyfraniad gwerthfawr yntau.
- ii. **Cylch yr Iaith** – nodwyd derbyn Adroddiad ar Dwristiaeth (*e-bostiwyd*)

11. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 22/2/ 2021; Neuadd Llangywer / Teams